



Gorchmynion Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

Sut y gallant fy amddiffyn?

Mae'r daflen hon yn disgrifio sut all Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM eich helpu os ydych yn pryderu eich bod chi, neu rywun rydych yn ei adnabod, wedi dioddef neu mewn perygl o ddioddef FGM. Mae'n esbonio pwy gaiff wneud cais am orchymyn, yn disgrifio'r hyn y mae angen i chi ei wneud, ac yn dweud wrthyhych beth fydd yn digwydd unwaith y bydd y llys wedi cael eich cais.

Beth yw FGM?

Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) yn cynnwys bob un dull o dynnu organau cenhedlu allanol benyw un ai yn gyfan gwbl neu'n rhannol, neu unrhyw anafiad arall i organau cenhedlu benyw oherwydd rhesymau nad ydynt yn rhai meddygol. Nid oes unrhyw fuddion o ran iechyd i hyn ac mae'n niweidio genethod a merched mewn sawl ffordd. Mae'n cynnwys tynnu a niweidio meinwe organau cenhedlu benyw sy'n iach a normal, ac felly mae'n amharu ar bwrpas naturiol cyrff genethod a merched. Mae'r arfer yn peri poen difrifol ac mae nifer o ganlyniadau ar unwaith a thymor hir iddo, gan gynnwys anawsterau wrth roi genedigaeth - sydd hefyd yn rhoi'r plentyn mewn perygl.

Ceir nifer o enwau am FGM, gan gynnwys "torri organau cenhedlu benywod", "enwaedu" neu "derbyn". Mae'r oed pan fydd FGM yn cael ei gyflawni ar enethod neu ferched yn amrywio'n sylweddol yn ôl y gymuned a gallai ddigwydd yn y DU yn ogystal â thramor. Gallai'r weithred ddigwydd pan fo'r eneth newydd gael ei geni, yn ystod plentyndod neu lasoed, ychydig cyn priodi neu yn ystod beichiogrwydd cyntaf. Fodd bynnag, credir bod y mwyafrif o achosion FGM yn digwydd rhwng 5 ac 8 oed ac, felly, ystyrir bod genethod yn yr oedran hwnnw mewn mwy o berygl.

Mae FGM yn anghyfreithlon yn y DU. Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae FGM yn anghyfreithlon dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 ac yn Yr Alban dan Ddeddf Gwahardd Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (Yr Alban) 2005. Dan Ddeddf 2003, bydd unigolyn yn euog o drosedd os bydd yn anffurfio organau cenhedlu geneth neu ferch yn eu cyfanrwydd neu'n rhannol, gan gynnwys cynorthwyo geneth i anffurfio organau cenhedlu ei hun neu gynorthwyo unigolyn nad ydynt yn hanu o'r DU i anffurfio organau cenhedlu geneth tramor.

Sut all Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM fy helpu?

Gall Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM eich helpu os ydych:

yn credu eich bod mewn perygl o ddiodef FGM;

eisoes wedi dioddef FGM; neu

yn adnabod rhywun sydd mewn perygl o ddiodef FGM.

Mae Gorchymynion Amddiffyn rhag FGM yn unigryw i bob achos unigol ac maent yn cynnwys amodau a chyfarwyddiadau sy'n gyfreithiol rwymol i amddiffyn chi neu'r unigolyn sydd mewn perygl o ddiodef FGM. Gall y Llys wneud gorchymyn ar frys fel bod y gorchymyn amddiffyn mewn lle ar unwaith.

Gall y Llys wneud Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM er mwyn:

- eich amddiffyn chi neu unigolyn arall sydd mewn perygl o ddiodef FGM; neu
- eich amddiffyn chi neu unigolyn arall sydd wedi dioddef FGM.

Gellir gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM ar yr un pryd ag ymchwiliad heddlu, achos troseddol arall neu achos yn y llys teulu. Gellir anfon unrhyw un nad yw'n ufuddhau i orchymyn llys i'r carchar am hyd at ddwy flynedd am ddirmyg llys; ond mae torri amodau Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM hefyd yn drosedd sydd â dedfryd uchaf o bum mlynedd yn y carchar.

Ym mhle ga'i wneud cais am orchymyn?

Gellir gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM mewn Llys Teulu yng Nghymru a Lloegr. Gallwch wneud cais mewn nifer o ganolfannau llys. Darperir rhestr o ganolfannau llys sy'n delio â'r mathau hyn o geisiadau ar ddiwedd y daflen hon.

Pwy all wneud cais am orchymyn?

Yr unigolyn sydd i'w amddiffyn gan y gorchymyn

- trydydd parti perthnasol; neu
- unrhyw unigolyn arall gyda chaniatâd y llys.

Trydydd Parti Perthnasol yw rhywun a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor i wneud ceisiadau ar ran eraill.

Gall oedolion neu blant (rhai sydd dan 18 oed) wneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM. Gall plant gael 'cyfaill agosaf' neu rywun i'w cynorthwyo os oes ganddynt gynrychiolydd cyfreithiol neu fod y llys yn cytuno, ond nid oes rhaid iddynt

Os ydych yn pryderu am ddod i'r llys

Nodwch eich pryderon ar eich ffurflen gais neu gwnewch gais ysgrifenedig i Reolwr

Cyflawni'r Llys cyn gynted ag y bo modd neu efallai bydd oedi i wrando ar y cais.

Efallai bydd y llysoedd yn gallu cynnig:

- ystafelloedd aros ar wahân yn y llys;
- mynedfa ac allanfa ar wahân; neu
- lle parcio ar dir y llys i hwyluso mynediad rhwydd i adeilad y llys ar gyfer tystion bregus ac ofnus.

Efallai y bydd cyfleusterau amddiffyn tystion hefyd ar gael mewn rhai llysoedd.

Os ydych yn pryderu am roi tystiolaeth yn yr ystafell llys

- Dywedwch wrth y llys am eich pryderon yn eich ffurflen gais. Bydd y llys yn penderfynu beth sy'n briodol ac efallai bydd yn gorchymyn:
- defnyddio sgriniau i sicrhau nad yw tystion yn gallu gweld yr atebwyr yn y llys (mewn achos o'r math hwn yr atebwyr yw'r rhai sydd wedi'u cyhuddo o drefnu'r weithred FGM). Mae sgriniau'n cael eu gosod o amgylch y blwch tystion o fewn y llys fel ni all y tyst weld yr atebwyr, ac ni all yr atebwyr weld y tyst tra eu bod yn rhoi tystiolaeth.
- bod tystiolaeth yn cael ei recordio ar fideo. Mae hyn yn caniatáu i gyfweiliad gyda'r tystion, sydd wedi cael ei recordio cyn y gwrandawriad, gael ei ddangos fel prif dystiolaeth y tyst yn ystod y gwrandawriad, h.y. nid oes rhaid i'r tyst ailadrodd beth sydd wedi cael ei ddweud yn barod, ond mae'n rhaid iddynt fod ar gael i'w croesholi os bydd angen.
- Cyswllt teledu neu fideo byw, gan alluogi'r tyst i roi tystiolaeth o du allan i'r ystafell

llys. Mae hyn yn galluogi tyst i roi tystiolaeth trwy gyswllt teledu o ystafell arall yn adeilad y llys neu adeilad arall yn gyfan gwbl. Er nad yw'r tyst yn dod i mewn i'r ystafell llys, bydd y rhai hynny sy'n bresennol yn y llys yn gweld y tyst yn rhoi tystiolaeth ar y teledu.

- Y Llys fydd yn penderfynu beth sy'n addas, os oes unrhyw beth, ym mhob achos.
- Efallai bydd y llys yn gallu darparu'r cyfleusterau ychwanegol canlynol:
- os oes gennych anabled ac mae angen cymorth neu gyfleusterau arbennig arnoch, cysylltwch â'r llys i ofyn pa gymorth sydd ar gael. Darperir rhestr o enwau canolfannau llys a rhifau ffôn ar ddiwedd y daflen hon.
- Os bydd angen cyfieithydd arnoch oherwydd nad ydych yn siarad Saesneg, bydd angen ichi roi gwybod i'r llys er mwyn trefnu bod un yn bresennol, gan nodi'r iaith a'r dafodiaith.

Faint fydd hyn yn ei gostio?

Nid oes ffi llys am wneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM i chi'ch hun neu ar ran rywun arall. Yn yr un modd, nid oes ffi llys am unrhyw weithdrefnau llys ychwanegol sy'n gysylltiedig â'ch achos, megis:

- ceisiadau i amrywio neu ryddhau gorchymyn;
- ceisiadau i'r Llys Teulu i ystyried sut y dylid delio â'r unigolyn sydd wedi torri amodau'r gorchymyn; neu
- geisiadau fod beili llys yn cyflwyno'r gorchymyn.

Alla'i gael cymorth cyfreithiol?

Gallwch. Mae cymorth cyfreithiol ar gael ichi pan fyddwch yn cael eich cynrychioli mewn mater Amddiffyn rhag FGM gan gynnwys traddodi oherwydd torri gorchymyn. Gall gyfreithiwr, neu aelod o un o Ganolfannau'r Gyfraith neu Ganolfan Cyngor ar Bopeth eich cynghori o ran a oes gennych achos rhesymol ai peidio. Gellir cael rhagor o wybodaeth am gymorth cyfreithiol a sut i ganfod cynghorydd cyfreithiol naill ai ar-lein yn www.gov.uk/legal-aid neu drwy ffonio 0845 345 4345 (dydd Llun i ddydd Gwener, 9am - 6.30pm).

Alla'i wneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM?

Gallwch, neu gallwch drefnu i gyfreithiwr wneud hyn ar eich rhan. Os byddwch yn gwneud cais eich hun, rhaid i chi fod yn barod i lenwi'r ffurflenni a'r datganiadau perthnasol ac egluro eich achos i'r llys.

Os byddwch angen help i lenwi'r ffurflenni, ond nid ydych yn adnabod ffrind neu berthynas all helpu, dylech fynd i weld cyfreithiwr neu fynd i Ganolfan Cyngor ar Bopeth. Gall staff

y llys eich helpu trwy egluro gweithdrefnau'r llys, ond ni allant roi cyngor cyfreithiol ar rinweddau achosion unigol, na rhoi cyngor am y canlyniad posibl.

Pa ffurflenni fydd eu hangen arnaf?

Bydd arnoch angen Cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (Ffurflen FGM001). Os bydd arnoch angen caniatâd y llys i wneud cais ar ran rhywun arall, bydd rhaid i chi lenwi Ffurflen FGM006 – Cais am ganiatâd i wneud cais am Orchymyn Amddiffyn Rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

Mae'r ffurflenni hyn i gyd yn rhad ac am ddim. Gallwch eu cael o unrhyw un o'r canolfannau llys sy'n delio â cheisiadau am Orchymynion Amddiffyn rhag FGM (ceir rhestr o'r canolfannau llys hyn ar ddiwedd y daflen hon) neu gallwch lwytho'r ffurflenni o'n gwefan yn hmctsformfinder.justice.gov.uk

Gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM

Os mai chi yw'r unigolyn i'w amddiffyn gan y gorchymyn neu drydydd parti perthnasol (a nodir gan yr Arglwydd Ganghellor) dylech lenwi'r ffurflen FGM001 - Cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod. Cewch ragor o wybodaeth ar sut i lenwi'r ffurflen ar gefn Ffurflen FGM001. Byddwch angen digon o gopïau i'w cyflwyno ar yr holl atebwyr a enwir.

Dylai'r cais gynnwys manylion am sut yr hoffech i'r llys eich amddiffyn chi neu'r unigolyn sydd mewn perygl o FGM, e.e. i'ch atal chi neu'r unigolyn sydd mewn perygl rhag cael eich hebrwng dramor er mwyn i FGM gael ei gyflawni.

Dylai'r cais gynnwys manylion unrhyw drafodaethau sydd wedi peri i chi gredu y gallwch fod mewn perygl o FGM.

Os nad ydych yn dymuno datgelu eich cyfeiriad neu gyfeiriad unrhyw un a nodwyd yn y ffurflen gais i'r atebwyr, dylech lenwi Ffurflen C8 Manylion Cyswllt Cyfrinachol. Gallwch gael y ffurflen hon o'r canolfannau llysoedd a restrir yn y daflen hon neu oddi ar ein gwefan yn hmctsformfinder.justice.gov.uk.

Os ydych yn gwneud cais ar ran unigolyn sydd i'w amddiffyn, mae'n rhaid i chi lenwi ffurflen FGM006 - Cais am ganiatâd i wneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, gan ofyn am ganiatâd y llys i wneud cais am orchymyn.

Bydd rhaid i chi roi datganiad os ydych yn gofyn i'r cais gael ei wrando heb roi rhybudd i'r atebwyr mewn achos brys neu mewn argyfwng (gweler isod).

Beth ddylwn i'w wneud os oes angen gorchymyn arna'i ar frys?

Gallwch ofyn i'r llys ystyried eich cais ar unwaith a gwneud gorchymyn heb gyflwyno unrhyw ddogfennau ar yr atebwyr. Gelwir hyn yn orchymyn ex-parte neu'n orchymyn heb rybudd.

Os bydd y barnwr yn gwneud gorchymyn heb rybudd, fe gewch apwyntiad arall i ddod i'r llys. Bydd gan yr atebwyr hawl i fod yn bresennol yn yr apwyntiad hwn er mwyn i'r barnwr wrando ar bawb cyn penderfynu a ddylid gwneud gorchymyn arall ai peidio.

Os ydych yn gwneud cais am orchymyn heb rybudd rhaid i chi wneud datganiad tyst gan gynnwys datganiad gwirionedd. Os ydych yn cynrychioli eich hun, rhaid i chi wneud datganiad ysgrifenedig, gan nodi pam mae arnoch angen cael eich amddiffyn a mynd ag ef i'r llys gyda'ch Ffurflen Gais FGM001. Dylai datganiad gwirionedd ddweud y canlynol:

[Rwy'n credu] [Mae'r ceisydd yn credu] bod y ffeithiau a ddatgenir yn y [enw'r ddogfen] hon yn wir:

Beth ddylwn i'w wneud ar ôl llenwi'r ffurflenni?

Dylech gyflwyno'r ffurflenni sydd wedi'u llenwi a'r copïau i'r llys drwy'r post neu yn bersonol. Gallwch hefyd anfon eich cais drwy e-bost hefyd.

Beth fydd yn digwydd pan roddaf y ffurflenni i'r llys?

Bydd y llys yn gwirio'r ffurflenni ac yn rhoi Rhybudd o Achos ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (Ffurflen FGM002) i chi. Bydd hwn yn rhoi gwybod ichi am ddyddiad eich apwyntiad gerbron y barnwr.

Byddai er eich budd chi i fod yn bresennol yn y llys ar y dyddiad a nodir ar y ffurflen hon. Dylech fod yn barod i roi unrhyw dystiolaeth rydych chi'n meddwl bydd yn eich helpu i gyfleu eich ochr chi o'r achos.

Rhaid i'r ffurflen gais (FGM001 neu FGM006) a'r ffurflen Rhybudd o Achos (FGM002) gael eu cyflwyno ar yr atebwyr ac unigolion eraill. Os ydych yn cael cymorth gan gyfreithiwr, bydd y ffurflenni yn cael eu hanfon atyn nhw i'w cyflwyno.

Gallwch ofyn i'r llys gyflwyno'r dogfennau ar eich rhan. Bydd y llys yn gofyn i chi lenwi'r ffurflen D89 – 'Cais am wasanaeth cyflwyno personol gan feili'r llys' i wneud hyn. Yna, bydd y llys yn trefnu i'r beili gyflwyno copi o'ch cais a'r dogfennau eraill.

Ceisiadau electronig

Os ydych yn bwriadu cyflwyno eich cais trwy e-bost, dim ond un copi o'r cais wedi'i lenwi bydd angen i chi ei anfon i'r cyfeiriad e-bost perthnasol sydd yn y wybodaeth am lysoedd ar

ddiwedd yr arweiniad hwn.

Mae'n rhaid i'r ddogfen electronig gynnwys llofnod neu enw wedi'i deipio yn y datganiad gwirionedd. Bydd angen i chi gadw eich dogfen wreiddiol wedi'i llofnodi a bydd angen i'r llys weld y ddogfen honno.

Ni fydd ceisiadau a anfonir drwy e-bost ar ôl 4pm yn cael eu prosesu tan y diwrnod gwaith dilynol.

Sut ddylwn i drefnu i'r papurau gael eu cyflwyno?

Os ydych yn geisydd unigol, NI DDYLECH gyflwyno'r dogfennau eich hun ar yr unigolyn rydych eisiau cael eich amddiffyn rhagddo. Bydd rhaid i chi drefnu i rywun (e.e. cyflwynydd proses) gyflwyno copi o'r ffurflen gais (FGM001 neu FGM006) ynghyd â'r rhybudd o unrhyw wrandawriad neu apwyntiad cyfarwyddo yn y ffurflen Rhybudd o Achos (FGM002) yn bersonol ar yr atebwyr, h.y. yr unigolyn sy'n destun yr achos (os nad y ceisydd), ac unrhyw unigolyn arall a gyfarwyddyd gan y llys, dim llai na 2 ddiwrnod cyn y dyddiad bydd y cais yn cael ei wrando. Fodd bynnag, gall y llys leihau'r cyfnod hwn.

Ar ôl i'r dogfennau gael eu cyflwyno, rhaid i'r unigolyn sy'n cyflwyno'r papurau lenwi Datganiad Cyflwyno (Ffurflen FL415) a'i ffeilio gyda'r llys. Mae Ffurflen FL415 yn datgan ar bwy gafodd y dogfennau eu cyflwyno, sut a pryd bu iddynt gael y dogfennau ac ar ba ddyddiad ac amser. Gallwch gael y ffurflen hon o unrhyw un o'r canolfannau llys a restrir yn y daflen hon neu gallwch eu lawrlwytho o'n gwefan: hmctsformfinder.justice.gov.uk

Os na allwch chi ddod o hyd i gyfeiriad y rhai hynny mae'r dogfennau yn cael eu cyflwyno arnynt neu os yw'n ymddangos eu bod yn osgoi'r cyflwyno, cewch ofyn i'r llys gyflwyno'r papurau mewn ryw ffordd arall (er enghraifft, yn lle mae'r atebydd yn gweithio).

Beth fydd yn digwydd yn y gwrandawriad?

- Bydd gwrandawriad cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM yn cael ei wrando yn breifat (fel arfer gelwir hyn 'yn y siambrau'), oni bai bod y llys yn cyfarwyddo fel arall, a chedwir cofnod o'r gwrandawriad. Efallai bydd y llys yn caniatáu i bobl eraill fod yn bresennol yn y llys, er enghraifft, ffrind neu gynghorydd annibynnol, i gefnogi. Efallai y bydd gofyn i geiswyr roi tystiolaeth lafar yn y llys. Mae hyd gwrandawriad yn amrywio, yn ddibynnol ar gymhlethdod yr achos a p'un a yw'r atebwyr yn gwrthwynebu'r honiadau ai peidio.
- Unwaith bydd y llys yn deall safbwynt y ddau barti, gall benderfynu ar unrhyw rai o'r canlynol:
- bod arno angen rhagor o wybodaeth amdanoch chi, a'r holl atebwyr. Fe ddywedir

wrthych pa wybodaeth ychwanegol i'w darparu;

- bod arno angen rhagor o wybodaeth, ond ei fod yn barod i wneud gorchymyn dros dro ('interim') nes bydd yr holl wybodaeth ychwanegol wedi'i darparu. Byddwch yn cael apwyntiad newydd, gorchymyn interim, a dywedir wrthych ba wybodaeth ychwanegol i'w darparu;
- ei fod yn barod i wneud gorchymyn am gyfnod penodol, ac y bydd y llys yn ailystyried yr achos ar ôl hynny. Fe gewch ddyddiad ar gyfer apwyntiad newydd a chopi o'r gorchymyn llys; neu
- ei fod yn barod i wneud gorchymyn. Gall y llys wneud gorchymyn am gyfnod penodol neu gallai'r gorchymyn barhau am gyfnod amhenodol nes y caiff ei amrywio neu ei ryddhau gennych chi, yr atebwyr neu'r llys ei hun. Fe roddir copi o'r gorchymyn i chi.

Beth fydd yn digwydd ar ôl y gwrandawriad?

Os bydd y llys wedi gwneud Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM, bydd y ceisydd yn cyflwyno copi o'r gorchymyn ac unrhyw ddogfennau eraill y llys i'r atebwyr, i'r unigolyn sy'n destun yr achosion (os nad y ceisydd), ac unrhyw un arall a enwir yn y gorchymyn yn bersonol cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl. Gallwch ofyn i'r llys gyflwyno'r dogfennau ar eich rhan (gweler uchod).

Mae'n rhaid i chi hefyd gyflwyno'r gorchymyn ar yr heddlu, ynghyd â datganiad sy'n nodi bod y gorchymyn wedi cael ei gyflwyno ar yr atebwyr ac unrhyw unigolion eraill a gyfarwyddyd gan y llys neu eu bod wedi cael gwybod am ei delerau. Dylid danfon y gorchymyn a'r datganiad i'r orsaf heddlu sy'n gwasanaethu cyfeiriad yr unigolyn a amddiffynnir gan y gorchymyn, oni bai bod y llys yn nodi gorsaf heddlu arall. Gallwch ofyn i'r llys gyflwyno'r dogfennau ar eich rhan (gweler uchod).

Beth os wyf eisiau amrywio, ymestyn neu derfynu'r gorchymyn?

Gallwch wneud cais i amrywio, ymestyn neu derfynu gorchymyn amddiffyn rhag FGM yn ddiweddarach. Bydd arnoch angen llenwi Ffurflen FGM003 - Cais i amrywio, ymestyn neu ryddhau Gorchymyn Amddiffyn rhag yn Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod.

Beth os na fydd yr atebwyr yn ufuddhau i'r gorchymyn?

Gellir delio ag achos o dorri amodau Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM yn y Llys Teulu neu mewn llys troseddol.

Dan baragraff 7(1) Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003, gallwch wneud cais i'r Llys Teulu yn gofyn iddo ymdrin â thor-amod fel dirmyg llys. Rhaid i'r cais am warant i arestio gael ei gefnogi gan ddatganiad yn nodi sut y torrwyd amodau'r

gorchymyn neu'r ymgymriad. Rhaid gwneud y cais ar Ffurflen FGM005 - Warrant Arestio - Gorchmynion Amddiffyn rhag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM).

Pan fydd y llys teulu yn penderfynu bod unigolyn wedi torri amodau'r gorchymyn, bydd y llys yn delio gyda hwy dan ei bwerau o ddirmyg llys, a all gynnwys eu hanfon i'r carchar am hyd at ddwy flynedd.

Fel arall, gellir adrodd yn uniongyrchol i'r heddlu am achosion honedig o dorri amodau Gorchmynion Amddiffyn rhag FGM, a gall yr heddlu arestio'r hawl sydd dan amheuaeth o dorri amodau'r gorchymyn. Yn dilyn ymchwiliad gan yr heddlu, bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r erlyn drwy ddilyn y prawf dau-gam yn y Cod i Erlynwyr y Goron: a oes digon o dystiolaeth i roi posibilrwydd realistig o euogfarn; ac, os felly, a yw erlyn er budd y cyhoedd. Y gosb fwyaf am dorri amodau Gorchymyn Amddiffyn rhag FGM yw pum mlynedd o garchar.

Os bydd Gwasanaeth Erlyn y Goron yn penderfynu peidio ag erlyn am ba bynnag reswm, gallwch dal wneud cais i'r Llys Teulu am warrant arestio am ddirmyg llys fel y nodir uchod.

Fodd bynnag, os bydd rhywun wedi cael ei ddyfarnu'n euog o'r tor-amod mewn llys troseddol, ni ellir eu cosbi am ddirmyg llys neu'r ffordd arall.

Am ragor o wybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol sy'n gallu rhoi cyngor i chi, ewch i'r wefan hon:

www.gov.uk/female-genital-mutilation

neu

Am ragor o wybodaeth a chyngor am wasanaethau lleol sydd ar gael, gallwch ffonio llinell gymorth FGM yr **NSPCC 0800 028 3550** 24 awr y dydd, neu anfon e-bost at **fgmhelp@nspcc.org.uk**

Rhestr o ganolfannau llysoedd lle gellir gwneud cais am Orchymyn Amddiffyn rhag FGM

Y Llys Teulu sy'n delio â cheisiadau am Orchymynion Amddiffyn rhag FGM. Dylid anfon cais i'r Llys Teulu sy'n eistedd yn un o'r canolfannau llysoedd isod. Gan amlaf, mae'r canolfannau llys hyn ar agor o ddydd Llun tan ddydd Gwener rhwng 10am a 4pm. Mae gwasanaethau cownter ar gael o 10am tan 2pm. Fodd bynnag, rhaid gwneud apwyntiad mewn rhai canolfannau. Dywedwch wrth y Llys pan fyddwch yn cyrraedd fod eich mater yn un brys.

**Canolfan
Cyfiawnder Sifil a
Theulu Birmingham** Priory Courts
33 Bull Street
Birmingham
Gorllewin Canolbarth Lloegr
B4 6DS

Ffôn: 0300 123 1751

E-bost: family@birmingham.countycourt.gsi.gov.uk

or

e-filing@birmingham.countycourt.gsi.gov.uk

Llys Cyfun Bradford Exchange Square
Drake Street
Bradford
Gorllewin Swydd Efrog
Lloegr BD1 1JA

Ffôn: 01274 840274

E-bost: family@bradford.countycourt.gsi.gov.uk

neu

e-filing@bradford.countycourt.gsi.gov.uk

**Canolfan
Wrandawiadau Llys
Teulu Brighton** 1 Edward Street
Brighton
East Sussex
England BN2 0JD

Ffôn: 01273 811 333

E-bost: sussexfamily@hmcts.gsi.gov.uk

**Canolfan
Cyfiawnder Sifil a
Theulu Bryste** 2 Redcliff Street
Bryste
Lloegr
BS1 6GR

Ffôn: 0117 366 4880

E-bost: family@bristol.countycourt.gsi.gov.uk

**Canolfan
Cyfiawnder Sifil a
Theulu Caerdydd** 2 Stryd y Parc
Caerdydd
De Cymru
CF10 1ET

Ffôn: 029 2037 6400

E-bost: enquiries@cardiff.countycourt.gsi.gov.uk

Y Llys Teulu Canolog First Avenue House
42-49 High Holborn
Llundain
Lloegr
WC1V 6NP

Ffôn: 020 7421 8594

E-bost:: cfc.privatelaw@hmcts.gsi.gov.uk

Llys Cyfun Derby Morledge
Derby
Derbyshire
Lloegr DE1 2XE

Ffôn: 01332 622600

E-bost: family@derby.countycourt.gsi.gov.uk

**Llys Teulu Dwyrain
Llundain**

Llawr 6 a 7
11 Westferry Circus
Llundain
Lloegr E14 4HD

Ffôn: 020 3197 2886

E-bost: eastlondonfamilyenquiries@hmcts.gsi.gov.uk

Llys Cyfun Leeds

Adeilad y Llys
1 Oxford Row
Leeds
Gorllewin Swydd Efrog
Lloegr LS1 3BG

Ffôn: 0113 306 2800

E-bost: leedsdfcprivatelawgeneralenquiries@hmcts.gsi.gov.uk

neu

leedspubliclawissue@hmcts.gsi.gov.uk

**Llys Sirol a Llys
Teulu Caerlŷr**

90 Wellington Street
Caerlŷr
Swydd Gaerlŷr
Lloegr LE1 6HG

Ffôn: 0116 222 5700

E-bost: family@leicester.countycourt.gsi.gov.uk

**Canolfan
Wrandawiadau Llys
Sifil a Theulu Lerpwl**

35 Vernon Street Lerpwl
Glannau Mersi
Lloegr L2 2BX

Ffôn: 0151 296 2607

E-bost: family@liverpool.countycourt.gsi.gov.uk

**Llys Sirol a Llys
Teulu Luton**

Zil lawr, Tŷ Cresta
Alma Street
Luton
Bedfordshire
Lloegr LU1 2PU

Ffôn: 0300 123 5577

E-bost: enquiries@luton.countycourt.gsi.gov.uk

**Llys Sirol a Llys
Teulu Manceinion**

1 Bridge Street West
Manceinion
Manceinion Fwyaf
Lloegr M60 9DJ

Ffôn: 0161 240 5420

E-bost: familyapplications.manchester@hmcts.gsi.gov.uk

**Canolfan Llys Cyfun
Newcastle upon
Tyne**

The Quayside
Newcastle-upon-Tyne
Tyne & Wear
Lloegr NE1 3LA

Ffôn: 0191 201 2000

E-bost: COPNewcastle@newcastle.countycourt.gsi.gov.uk

**Llys Cyfun
a Chanolfan
Wrandawiadau
Teulu Norwich**

Bishopgate
Norwich
Norfolk
Lloegr NR3 1UR

Ffôn: 0344 892 4000

E-bost: family@norwich.countycourt.gsi.gov.uk

neu

e-filing@norwich.countycourt.gsi.gov.uk

**Llys Cyfun
a Chanolfan
Wrandawiadau Llys
Teulu Rhydychen**

St Aldates,
Rhydychen
Swydd Rydychen
Lloegr OX1 1TL

Ffôn: 01865 264 200

E-bost: family@oxford.countycourt.gsi.gov.uk

Llys Cyfun Plymouth 10 Armada Way
Plymouth
Dyfnaint
Lloegr PL1 2ER

Ffôn: 01752 677 400

E-bost: family@plymouth.countycourt.gsi.gov.uk

**Canolfan Llys Cyfun
Portsmouth** Winston Churchill Avenue
Portsmouth
Hampshire
Lloegr PO1 2EB

Ffôn: 02392 893 000

E-bost: family@portsmouth.countycourt.gsi.gov.uk

Llys Teulu Preston Sessions House
Lancaster Road
Preston
Lancashire
Lloegr PR1 2PD

Ffôn: 01772 844 700

E-bost: prestonSFCissue@hmcts.gsi.gov.uk

**Canolfan
Wrandawiadau Llys
Sirol a Llys Teulu
Reading** 160-163 Friar Street
Reading
Berkshire
Lloegr RG1 1HE

Ffôn: 0118 987 0500

E-bost: family@reading.countycourt.gsi.gov.uk

**Canolfan Llys Cyfun
Sheffield** 50 West Bar
Sheffield
De Swydd Efrog
Lloegr S3 8PH

Ffôn: 0114 2812400

E-bost: family@sheffield.countycourt.gsi.gov.uk

Llys Cyfun Teeside

Russell Street
Middlesbrough
Cleveland
Lloegr TS1 2AE

Ffôn: 01642 340 000

E-bost: family@middlesbrough.countycourt.gsi.gov.uk

**Llys Teulu Gorllewin
Llundain**

Gloucester House
4 Dukes Green Avenue
Feltham
Middlesex
Lloegr TW14 0LR

Ffôn: 020 8831 3500

E-bost: westlondonfamilyenquiries@hmcts.gsi.gov.uk
